Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Arferion cofrestru disgyblion

Hydref 2019



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy’n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11** | **8** |
| **Nodweddion disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11** | **12** |
| **Nodweddion ysgolion â chyfraddau uchel o ddisgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11** | **17** |
| **Disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10** | **22** |
| **Y twf yn nifer y disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 ac sy'n dilyn addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **26** |
| **Disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref** | **31** |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **32** |
| **Atodiad 2: Cwestiynau i gefnogi monitro a gwerthuso gan gyrff llywodraethol** | **33** |
| **Atodiad 3: Methodoleg ar gyfer dadansoddi data** | **34** |
| **Atodiad 4: Dadansoddi data ymhellach** | **36** |
| **Atodiad 5: Dadansoddi data sydd wedi'i seilio ar ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 yn 2016-2017** | **38** |
| **Geirfa** | **46** |
| **Cyfeiriadau** | **48** |

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2018-2019. Mae'r adroddiad yn archwilio arferion cofrestru disgyblion yng Nghymru, ac yn benodol:

- ysgol sy'n tynnu enw disgybl oddi ar ei chofrestr yn gyfan gwbl heb ddefnyddio gwaharddiad parhaol ffurfiol ('tynnu oddi ar y gofrestr')
- ysgol sy'n newid statws cofrestru disgyblion rhwng mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 a mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 fel nad yw deilliannau'r disgybl yn cael eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol

Ni chaiff y rhesymau dros yr arferion hyn eu harchwilio'n llawn yn yr adroddiad hwn, ond gallent gynnwys ysgolion yn ceisio gwella data deilliannau Blwyddyn 11 a adroddwyd neu osgoi gwahardd disgybl yn barhaol. Ymwelodd arolygwyr ag awdurdodau lleol i archwilio'r modd y maent yn monitro arferion cofrestru, a buont yn ystyried ystod eang o ddata i nodi patrymau a thueddiadau mewn arferion ysgol. Caiff y rhain eu harchwilio'n fanwl yn yr adroddiad. I gael mwy o wybodaeth am sail y dystiolaeth, gweler Atodiad 1.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i gynorthwyo awdurdodau lleol ac ysgolion i fyfyrio ar eu harferion cofrestru presennol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cwestiynau i gynorthwyo arweinwyr ysgol a chyrff llywodraethol i werthuso eu harfer.

## Cefndir

Bob mis Ionawr, mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar boblogaeth pob ysgol trwy ei Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Wedyn, caiff y data hwn ei ddilysu a'i gyhoeddi yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Mae data perfformiad allweddol ar gyfer ysgolion yn seiliedig ar garfan y disgyblion sydd ym Mlwyddyn 11 ar ddyddiad CYBLD mis Ionawr. Ar lefel genedlaethol, gellir dim ond olrhain symudiadau disgyblion bob blwyddyn felly.

Dros y 20 mlynedd ddiwethaf, bu cynnydd yn argaeledd a defnydd y data gan ysgolion, ac yn y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r defnydd o ddata ar gyfer atebolrwydd wedi cynyddu hefyd. Yn 2009, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (SDCCG). Galluogodd y setiau data hyn i ysgolion gymharu eu perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 gyda chyfartaleddau cenedlaethol, cyfartaleddau lleol a pherfformiad ysgolion sydd â lefelau tebyg o amddifadedd, fel y cânt eu mesur gan ganran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae'r llinell amser ganlynol yn dangos sut mae argaeledd data wedi cynyddu yn ystod y 20 mlynedd ddiwethaf:

**2000au cynnar**

Mae symiau cynyddol o ddata ar gael i ysgolion werthuso eu perfformiad - er enghraifft cymaryddion awdurdodau lleol, cyfartaleddau cenedlaethol, data o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru a mesurau gwerth ychwanegol, sy'n dangos pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio o gymharu â lefel ddisgwyliedig, ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae'r ffynonellau hyn yn rhoi syniad o ba mor dda y mae disgyblion wedi gwneud cynnydd mewn meysydd pwnc o un cyfnod allweddol i un arall. Mae ysgolion hefyd yn defnyddio cyfartaleddau cenedlaethol a data a ddarparwyd gan eu hawdurdod lleol, a data a ddarparwyd ar y ffurflenni data RE2 i werthuso deilliannau ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Ar yr adeg hon, ni chaiff y wybodaeth hon ei chydlynu'n genedlaethol, ac mae ysgolion yn dibynnu'n bennaf ar wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol. Felly, mae amrywioldeb yn y data a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r ffordd y mae ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth hon i werthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Dros gyfnod, mae ysgolion yn defnyddio'r data hwn yn gynyddol i werthuso pa mor dda y mae disgyblion yn perfformio ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae Llywodraeth Cymru, ysgolion a sefydliadau haen ganol hefyd yn dechrau defnyddio'r data hwn at ddibenion atebolrwydd.

**2009**

Mae Llywodraeth Cymru yn lansio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (SDCCG), gan roi data cymharol i ysgolion sydd yn ystyried cyd-destun yr ysgol. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad 'ysgolion tebyg'. Mae SDCCG hefyd yn cynnwys cwestiynau i gynorthwyo ysgolion â gwerthuso eu data perfformiad.

**2011** Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno bandio ysgolion – sef system lle caiff ysgolion eu gosod mewn un o bum band yn ôl eu perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 a'u data presenoldeb.

**2013** Cyhoeddir data perfformiad allweddol ysgolion ar wefan 'Fy Ysgol Leol'.

**2014** Caiff y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion ei lansio, gan ddisodli'r system bandio ysgolion. Gosodir ysgolion mewn categorïau cymorth â chodau lliw, sef gwyrdd, melyn, ambr neu goch, yn ôl dau faen prawf, sef:

- Cam 1 – dadansoddi perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4
- Cam 2 – gwerthuso gallu ysgol i hunanwella

Mae lliw'r categori cymorth yn diffinio lefel y cymorth y bydd y consortia rhanbarthol yn ei darparu, ac awdurdodau lleol yn cytuno â'r ysgol. Mae ysgolion sydd wedi eu categoreiddio yn ysgolion Gwyrdd yn tueddu i fod â hanes cryf o ysgogi gwelliant, ac felly, mae angen ychydig bach o gymorth arnynt yn unig. Yr ysgolion sydd wedi eu categoreiddio yn ysgolion Coch yw'r rheiny a fu'n perfformio'n wael ac maent wedi dangos bod angen lefelau mwy o gymorth arnynt er mwyn gwella.

**2016** Newid mewn methodoleg i gyfrifo mesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 – defnyddio carfan Blwyddyn 11 yn hytrach na disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

**2017** Dileu Cam 1 y categoreiddio

**2018** Mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu na chaiff data'r cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 ei gynnwys mewn pecynnau data craidd mwyach, ac nid ydynt ar gael ar wefan Fy Ysgol Leol. Mae'r data hwn yn seiliedig ar asesiadau athrawon, ac yn y blynyddoedd diwethaf, bu chwyddiant yn lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol y disgyblion sy'n gwneud gwerth y wybodaeth hon yn gynyddol amheus.

Fe wnaeth y datblygiadau hyn gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgolion trwy ddarparu sail dystiolaeth fwy trylwyr i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion wedi dechrau dibynnu'n ormodol ar y wybodaeth hon ar draul tystiolaeth uniongyrchol arall fel gwerthusiadau o safonau a chynnydd disgyblion trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Dros gyfnod, mae canlyniadau anfwriadol defnyddio ystod gyfyng o setiau data wedi dod yn glir. Mae rhai o'r canlyniadau hyn yn cynnwys ysgolion yn teimlo dan bwysau i berfformio'n dda yn eu harholiadau cyfnod allweddol 4, weithiau ar draul darparu profiadau dysgu gwerth chweil yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Canlyniad arall posibl yw bod ysgolion yn canolbwyntio gormod ar dechnegau arholiad yn hytrach na datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar

draws cwricwlwm ehangach, er enghraifft ysgolion yn cofrestru disgyblion nifer o weithiau ar gyfer arholiadau, hyd yn oed pan nad oeddent yn barod neu nid oeddent wedi gorffen astudio'r holl gwrs. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at ffocws cryfach ar bynciau craidd hefyd, gan roi llai o sylw weithiau i bynciau eraill y cwricwlwm.

O ganlyniad i argaeledd cynyddol data cymharol, dechreuodd arweinwyr ysgol weld bod data yn elfen allweddol o atebolrwydd 'lle mae llawer yn y fantol'. O ganlyniad i hyn, dechreuodd ysgolion deimlo dan fwy o bwysau i sicrhau bod disgyblion yn perfformio'n dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, yn ogystal â defnyddio amrywiaeth o strategaethau, ac nid oedd rhai ohonynt yn gynaliadwy i sicrhau cynnydd ymylol. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio sesiynau adolygu, cofrestriadau lluosog, gohirio atal amserlenni cyn arholiadau, amser cwricwlaidd cynyddol ar gyfer pynciau craidd a grwpiau targed i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni gradd C neu'n uwch mewn meysydd pynciau allweddol, yn enwedig mathemateg a Chymraeg/Saesneg.

Mewn rhai ysgolion, roedd y strategaethau hyn hefyd yn cynnwys cofrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau a allai o bosibl roi hwb i berfformiad yr ysgol, ond nid diwallu anghenion na dyheadau disgyblion unigol o reidrwydd. Er enghraifft, cofrestrwyd disgyblion ar gyfer cymwysterau sydd gyfwerth â thariff uchel sy'n cyfrannu'n gryf at berfformiad yr ysgol, ond nad oedd o reidrwydd yn gweddu i ddiddordebau neu allu disgyblion.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae tystiolaeth gynyddol wedi dod i'r amlwg y gall ysgolion fod yn defnyddio arferion cofrestru fel tynnu enwau disgyblion oddi ar gofrestr neu arferion amhriodol eraill i wella eu data perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Er enghraifft, fe wnaeth adroddiad Llywodraeth Cymru (2018a), 'Dadansoddiad o Ymarferion Cofrestru Disgyblion awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS' adolygu arferion cofrestru disgyblion sy'n gadael yr ysgol i gael eu haddysgu yn rhywle heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Amlygodd yr adroddiad hwn y modd yr oedd rhai ysgolion yn manteisio ar y rheoliadau presennol ynglŷn â chofrestriad deuol disgyblion i wella eu data perfformiad yng nghyfnod allweddol 4.

# Prif ganfyddiadau

1 Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion Blwyddyn 10 ar y gofrestr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 bron wedi dyblu. Yn ystod yr un cyfnod, mae canrannau disgyblion nad ydynt yn gwneud cynnydd rhwng blynyddoedd ysgol eraill wedi codi ychydig bach yn unig. Yn 2017-2018, mae canran y disgyblion Blwyddyn 10 wnaeth ail-wneud Flwyddyn 10 chwe gwaith yn fwy na'r gyfradd yn 2013-2014. Mewn llawer o achosion, nid yw disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 yn mynd ymlaen i Flwyddyn 11 wedyn i orffen eu hastudiaethau yng nghyfnod allweddol 4, ond maent yn gadael yr ysgol ar ôl dwy flynedd ym Mlwyddyn 10. Yn 2018-2019, bu gostyngiad yng nghanran y disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10. Gallai'r newid hwn fod wedi cael ei ddylanwadu gan gyflwyno gwiriadau dilysu llymach pan fydd ysgolion yn cyflwyno eu data CYBLD. Fodd bynnag, mae'r gyfradd hon dros deirgwaith yn uwch na'r gyfradd yn 2013-2014 o hyd. Mae'r data hwn yn awgrymu y gallai ychydig o ysgolion fod yn cofrestru disgyblion i ail-wneud Blwyddyn 10 neu flynyddoedd ysgol eraill fel ffordd o symud disgyblion fel nad ydynt yn cael eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol.

2 Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol brif ffrwd ym mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 sydd wedyn yn symud i addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarparwr cyn mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 bron wedi dyblu. Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae cyfanswm nifer y disgyblion (o bob oedran) sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol wedi gostwng ychydig, ond mae canran y disgyblion hyn sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol tra'n parhau i fod â 'phrif gofrestriad deuol' mewn ysgol a gynhelir wedi mwy na haneru. Mae canran y disgyblion yn dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd â statws 'cofrestriad deuol atodol' mewn ysgol a gynhelir wedi treblu yn yr un cyfnod. Ni chaiff y deilliannau disgyblion olaf hyn eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol. Mae'r data hwn yn awgrymu y gallai ychydig o ysgolion fod yn cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fel disgyblion sydd â chofrestriad deuol atodol fel nad yw eu data yn cael ei gynnwys yn nata perfformiad yr ysgol. Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, bu cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n cael eu haddysgu gartref.

3 Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a'r rheiny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu'n derbyn darpariaeth gweithredu gan yr ysgol a mwy, yn llawer mwy tebygol o beidio â symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 na'u cyfoedion. Ar gyfer carfan y disgyblion a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2017-2018, mae'r rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros deirgwaith o beidio â symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd yn fwy tebygol nâ'r rheiny nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae disgyblion Blwyddyn 10 sydd ag anghenion addysgol arbennig dros bedair gwaith yn fwy tebygol na'r rheiny heb anghenion addysgol arbennig o beidio â symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd. Mewn ysgolion sydd â lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim neu sydd ag anghenion addysgol arbennig, mae cyfraddau'r disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn dueddol o fod yn uwch.

4 Gallai canlyniad anfwriadol y rheoliadau presennol ynglŷn â chofrestriad deuol disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fod yn atal ysgolion rhag bod yn gynhwysol. Mae cyfle i rai ysgolion fanteisio ar fylchau yn y rheoliadau hyn er mwyn gwella eu data perfformiad cyfnod allweddol 4. Mae anghysondebau hefyd o ran pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro ac yn herio arferion tynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr ac arferion cofrestru amhriodol eraill. Mae amlder casglu data CYBLD a'r diffyg manylion ynglŷn â chyrchfannau disgyblion sy'n gadael ysgolion rhwng blynyddoedd ysgol yn ei gwneud yn anodd olrhain symudiad disgyblion ar lefel genedlaethol.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion a chyrff llywodraethol:**

A1 sicrhau bod disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 mewn amgylchiadau eithriadol yn unig

A2 adolygu arferion cofrestru a symudiadau disgyblion yn rheolaidd fel rhan o drefniadau gwerthuso a gwella ysgolion

A3 sicrhau bod llywodraethwyr yn monitro symudiadau disgyblion rhwng Blynyddoedd 10 ac 11

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 fonitro arferion cofrestru ysgolion i roi sicrwydd fod ysgolion bob amser yn gweithredu er lles pennaf disgyblion unigol

A5 sicrhau bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion feini prawf a phrotocolau clir ar gyfer caniatáu i ysgolion gofrestru disgyblion yn ddisgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10

A6 monitro ac ymchwilio i unrhyw achosion lle mae disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 neu'n symud o Flwyddyn 10 i flwyddyn ysgol heblaw Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 adolygu'r drefn ar gyfer cofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ac ystyried data cyrchfannau i fesur effeithiolrwydd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

A8 gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu cronfeydd data o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal

A9 adolygu trefniadau ar gyfer CYBLD i sicrhau tryloywder gwell o ran symudiadau disgyblion


## Disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11

5 I gefnogi'r adroddiad hwn, cynhaliwyd dadansoddiad data gan ddefnyddio'r fethodoleg a amlinellir yn Atodiad 3.

### Dadansoddi data ar gyfer dilyniant disgyblion rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

6 Yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf, bu cynnydd yng nghanran y disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen yn uniongyrchol o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 i gwblhau eu haddysg mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru (Ffigur 1). Yn 2013-2014, roedd 780 nad oeddent wedi symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11. Roedd hyn yn cynrychioli 2.3% o garfan Blwyddyn 10 y flwyddyn flaenorol. Erbyn 2017-2018, roedd nifer y disgyblion nad oeddent wedi symud ymlaen i Flwyddyn 11 wedi cynyddu i 1,352, sydd gywerth â 4.4% o garfan Blwyddyn 10 y flwyddyn flaenorol, a bron ddwywaith y ganran yn 2013-2014. Yn 2018-2019, bu ychydig bach o ostyngiad yn nifer y disgyblion i 1,298, sy'n cynrychioli 4.2% o garfan Blwyddyn 10 y flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 1: Canran y disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11, 2013-2014 i 2018-2019**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

7 Mae Ffigurau 2 a 3 yn dangos, pan gaiff y cyfraddau dilyniant ar draws nifer o flynyddoedd ysgol eu cymharu, nad yw'r duedd a welir mewn cyfraddau dilyniant rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn gyson â'r duedd rhwng blynyddoedd ysgol eraill. Bu ychydig bach o gynnydd yn lefelau'r disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i'r flwyddyn ysgol nesaf ar gyfer Blwyddyn 7 i Flwyddyn 8, Blwyddyn 8 i Flwyddyn 9 a Blwyddyn 9 i Flwyddyn 10. O ystyried bod lefelau disgyblion nad ydynt yn symud

ymlaen i'r flwyddyn ysgol nesaf yn is mewn blynyddoedd ysgol eraill, mae hyn yn awgrymu bod yna ffactorau sy'n effeithio ar ddilyniant disgyblion rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 nad ydynt mor bwysig mewn grwpiau blwyddyn eraill. Gallai'r ffactorau eraill hyn gynnwys:


- disgyblion yn ymddieithrio'n gynyddol wrth iddynt fynd yn hŷn
- cyfyngu ar y cwricwlwm a chynnig ystod lai addas o gyrsiau i ddisgyblion
- ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar gofrestr yr ysgol cyn CYBLD mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 fel na chaiff deilliannau'r disgyblion hyn eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol

**Ffigur 2: Canran y disgyblion na wnaethant symud ymlaen rhwng grwpiau blwyddyn ysgolion uwchradd, 2013-2014 i 2018-2019**

| | **Blwyddyn 7 i Flwyddyn 8** | **Blwyddyn 8 i Flwyddyn 9** | **Blwyddyn 9 i Flwyddyn 10** | **Blwyddyn 10 i Flwyddyn 11** |
|---|---|---|---|---|
| **2013-2014** | 1.4% | 1.6% | 1.6% | 2.3% |
| **2014-2015** | 1.4% | 1.6% | 1.7% | 2.7% |
| **2015-2016** | 1.5% | 1.7% | 1.8% | 3.1% |
| **2016-2017** | 1.5% | 1.7% | 1.7% | 3.6% |
| **2017-2018** | 1.6% | 1.8% | 1.9% | 4.4% |
| **2018-2019** | 1.5% | 1.8% | 1.8% | 4.2% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

**Ffigur 3: Canran y disgyblion na wnaethant symud ymlaen rhwng grwpiau blwyddyn ysgol uwchradd, 2013-2014 i 2018-2019**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

## Dadansoddi dilyniant disgyblion rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn ôl categori

8 At ddiben yr adroddiad hwn, mae cyrchfannau'r disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 wedi cael eu trefnu'n grwpiau yn unol â'r categorïau a ddiffinnir yn Atodiad 3.

9 Mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos bod canran y disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 wedi cynyddu dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn 2017-2018, mae'r ffigur hwn chwe gwaith y ffigur cyfatebol ar gyfer 2013-2014. Yn 2013-2014, fe wnaeth 31 o ddisgyblion ail-wneud Blwyddyn 10. Erbyn 2017-2018, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 168 o ddisgyblion. Yn 2018-2019, disgynnodd y ffigur hwn i 91 o ddisgyblion, sy'n cynrychioli 0.29% o garfan Blwyddyn 10 y flwyddyn flaenorol. Gallai hyn fod wedi cael ei ddylanwadu gan Lywodraeth Cymru yn cyflwyno gwiriadau dilysu llymach pan fydd ysgolion yn cyflwyno eu data CYBLD. Edrychir yn fanwl ar y grŵp hwn o ddisgyblion yn yr adran 'Disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10'.


10 Mae cyfran y disgyblion sy'n symud i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarpariaeth addysg wedi cynyddu hefyd. Mae'r gyfran hon bron wedi dyblu er 2013-2014. Edrychir yn fanwl ar y grŵp hwn o ddisgyblion yn yr adran 'Y twf yn nifer y disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 ac sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarpariaeth'.

**Ffigur 4: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, 2013-2014 i 2018-2019**

| | | Canran y disgyblion: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **A aeth ymlaen i Flwyddyn 11** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10** | **A roddwyd mewn grŵp blwyddyn heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (yr holl gyrchfannau)** |
| 2013-2014 | 34,028 | 97.71% | 0.09% | 0.05% | 0.88% | 1.27% | 2.29% |
| 2014-2015 | 32,932 | 97.29% | 0.07% | 0.05% | 1.14% | 1.45% | 2.71% |
| 2015-2016 | 31,851 | 96.94% | 0.30% | 0.06% | 1.35% | 1.34% | 3.06% |
| 2016-2017 | 31,334 | 96.38% | 0.50% | 0.07% | 1.18% | 1.87% | 3.62% |
| 2017-2018 | 30,407 | 95.55% | 0.55% | 0.12% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |
| 2018-2019 | 31,183 | 95.84% | 0.29% | 0.06% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 5: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10 na wnaethant symud ymlaen i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd, 2013-2014 i 2018-2019**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

11 Mae Ffigur 4 yn dangos y bu cynnydd hefyd yng nghanran y disgyblion na ellir eu cysylltu â chyrchfan. Gallai hyn gynnwys:

- disgyblion sydd wedi symud dramor
- disgyblion sydd wedi symud i rywle arall yn y Deyrnas Unedig
- disgyblion sydd wedi marw
- disgyblion sydd wedi rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol, ac er gwaethaf ymdrechion yr ysgol a'r awdurdod lleol i ddod o hyd i'w cyrchfan, mae hyn yn anhysbys o hyd
- disgyblion y mae eu rhieni neu ofalwyr wedi dewis addysgu eu plentyn gartref

12 O'r 669 o ddisgyblion na ellid eu cysylltu â chyrchfan yn 2018-2019, fe wnaeth 120 ohonynt ail-wneud Blwyddyn 10 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r data yn awgrymu bod y disgyblion hyn wedi gadael yr ysgol ar ôl ail-wneud Blwyddyn 10, yn hytrach nag aros ymlaen yn yr ysgol i gwblhau Blwyddyn 11. O ganlyniad, efallai na fydd y disgyblion hyn yn cwblhau eu cyrsiau astudio neu'n ennill ystod briodol o gymwysterau i'w galluogi i symud ymlaen i astudio ymhellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r grŵp hwn o ddisgyblion yn cyfrif am ychydig llai nag un o bob pump o ddisgyblion Blwyddyn 10 na ellid eu cysylltu â chyrchfan.

## Nodweddion disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11

13 Yn yr adran hon, rydym yn nodi cysylltiadau posibl rhwng nodweddion disgyblion a lefelau dilyniant rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. O'r disgyblion hynny a oedd ym Mlwyddyn 10 mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir adeg casgliad CYBLD ym mis Ionawr 2017, nid ymddangosodd 4.4% ohonynt ym Mlwyddyn 11 yng nghasgliad CYBLD mis Ionawr 2018. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y rheiny ym Mlwyddyn 10 yn 2018 oedd 4.2%. Mae dadansoddiad o ddata yn seiliedig ar ddisgyblion a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2016-2017 ar gael yn Atodiad 5.

### Rhywedd

14 Mae Ffigur 6a yn dangos, yn 2018-2019, bod canran y bechgyn na symudodd ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn uwch na'r gyfran gyfatebol ar gyfer merched. Mae hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol i ddilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, lle roedd cyfran y bechgyn 1.6 gwaith yn uwch na chyfran y merched yn 2018-2019, ac 1.8 gwaith yn uwch yn 2017-2018.

**Ffigur 6a: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, yn ôl rhywedd, 2018-2019**

| | | Canran yn 2019 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Yr holl ddisgyblion | 31,183 | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |
| Merched | 15,292 | 0.39% | 1.29% | 2.12% | 3.79% |
| Bechgyn | 15,891 | 0.33% | 2.02% | 2.17% | 4.52% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

### Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim

15 Dros y pum mlynedd ddiwethaf, bu cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd (Ffigur 7). Yn 2017-2018, roedd canran y disgyblion Blwyddyn 10 sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim nad aethant ymlaen i Flwyddyn 11 ddwywaith yn fwy na'r gyfradd yn 2013-2014 ac, er i'r gyfradd hon ddisgyn yn 2018-2019, roedd bron ddwywaith yn fwy na'r gyfradd yn 2013-2014 o hyd.

16 Yn ystod yr un cyfnod, mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwella yn gyffredinol ar lefel genedlaethol. Hyd at 2016, roedd deilliannau disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn rhan o'r meini prawf ar gyfer categoreiddio ysgolion. Mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am

brydau ysgol am ddim wedi gwella ar lefel ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, er bod y data yn Ffigur 7 yn awgrymu mewn rhai achosion y gall hyn fod oherwydd nad yw disgyblion yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 ac felly ni chânt eu cynnwys yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol.

**Ffigur 7: Cyrchfannau disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar ôl Blwyddyn 10, 2013-2014 i 2018-2019**

| | | | Canran y disgyblion Blwyddyn 10 sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol) – cymwys am brydau ysgol am ddim** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| 2013-2014 | 34,028 | 5,721 | 0.23% | 2.36% | 2.62% | 5.21% |
| 2014-2015 | 32,932 | 5,460 | 0.16% | 3.02% | 3.19% | 6.37% |
| 2015-2016 | 31,851 | 5,309 | 0.87% | 3.58% | 2.60% | 7.04% |
| 2016-2017 | 31,334 | 5,220 | 1.84% | 2.76% | 3.72% | 8.31% |
| 2017-2018 | 30,407 | 5,042 | 1.61% | 4.20% | 4.88% | 10.69% |
| 2018-2019 | 31,183 | 4,890 | 0.74% | 4.25% | 4.64% | 9.63% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

17 Ni wnaeth tua 10% o ddisgyblion a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2016-2017 a 2017-2018 ac a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd yng Nghymru (Ffigur 7). Mae Ffigurau 8a ac 8b (gweler Atodiad 5) yn dangos bod disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros deirgwaith yn fwy tebygol o beidio â symud ymlaen i Flwyddyn 11 na'u cyfoedion. Mae'r un grŵp o ddisgyblion hefyd bron deirgwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion o adael yr ysgol, a bod eu cyrchfan yn anhysbys neu'n ail-wneud Blwyddyn 10 neu'n cael eu gosod mewn grŵp blwyddyn heblaw 10 neu 11. Mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim hefyd tua theirgwaith a hanner yn fwy tebygol na'u cyfoedion o drosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarpariaeth rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

**Ffigur 8a: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, yn ôl cymhwyster prydau ysgol am ddim, 2018-2019**

| | | Canran yn 2019 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Yr holl ddisgyblion | 31,183 | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |
| Ddim yn gymwys am PYDd | 26,293 | 0.29% | 1.18% | 1.68% | 3.15% |
| Yn gymwys am PYDd | 4,890 | 0.74% | 4.25% | 4.64% | 9.63% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

## Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig

18 Mae Ffigur 9a yn dangos na wnaeth tua 10% o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2017-2018 symud ymlaen yn uniongyrchol i Flwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd yng Nghymru. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig dros bedair gwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion i beidio ag aros mewn addysg brif ffrwd rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig dros deirgwaith yn fwy tebygol o ail-wneud Blwyddyn 10 neu gael eu gosod mewn grŵp blwyddyn heblaw Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11, a thros saith gwaith yn fwy tebygol o adael yr ysgol i gael eu haddysgu mewn darpariaeth heblaw yn yr ysgol na'r disgyblion hynny heb anghenion addysgol arbennig.

**Ffigur 9a: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, yn ôl anghenion addysgol arbennig, 2018-2019**

| | | Canran yn 2019 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Yr holl ddisgyblion | 31,183 | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |
| Disgyblion heb unrhyw AAA | 23,640 | 0.23% | 0.65% | 1.47% | 2.34% |
| Disgyblion ag AAA | 7,543 | 0.76% | 4.84% | 4.27% | 9.86% |


Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

## Cysylltiadau rhwng presenoldeb a chyfraddau disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11

19 Mae'r data yn Ffigur 10a yn dangos, er bod cysylltiad tenau rhwng y cyfraddau presenoldeb uchel a'r tebygolrwydd o ddilyniant i Flwyddyn 11, ni wnaeth cyfran sylweddol o ddisgyblion yr oedd eu presenoldeb yn well na'r trothwy absenoldeb parhaus symud ymlaen i Flwyddyn 11. Gellir dod i'r un casgliad o'r data ar gyfer 2016-2017 (gweler Ffigur 10b yn Atodiad 5).

20 Un rheswm pam mae disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10 yw oherwydd eu bod wedi colli cyfran fawr o'u hastudiaethau ym Mlwyddyn 10 y tro cyntaf. Mae presenoldeb y 91 disgybl wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 yn 2018-2019 yn dangos mai 25 (27.5%) yn unig o'r disgyblion hyn oedd â chyfradd presenoldeb llai na 70% yn 2017-2018, a ychydig o'r disgyblion hyn yn unig oedd yn absennol am fwy na hanner y flwyddyn ysgol. Mae hyn yn awgrymu, er bod presenoldeb rheolaidd yn ffactor, ei bod yn debygol fod yna ffactorau eraill mwy dylanwadol yn effeithio ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud i ddisgyblion ail-wneud Blwyddyn 10.

**Ffigur 10a: Cyfraddau presenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-2018 disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Cyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Chofnod Presenoldeb Disgyblion

## Nodweddion ysgolion â chyfraddau uchel o ddisgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11

21 Yn yr adran hon, rydym yn nodi cysylltiadau posibl rhwng nodweddion ysgolion a lefelau dilyniant rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn seiliedig ar garfan Blwyddyn 10 2017-2018 ynghyd â nodweddion cyd-destunol ysgolion yn 2017-2018. Mae dadansoddiad o ddata yn seiliedig ar ddisgyblion a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2016-2017 ar gael yn Atodiad 5.

### Y cysylltiad rhwng cymhwyster ysgol o ran prydau ysgol am ddim a dilyniant disgyblion o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11

22 Wrth i ganran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gynyddu, felly hefyd y mae'r tebygolrwydd na fydd disgyblion yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 (Ffigur 11a). Mae hyn yn arbennig o wir am ganran y disgyblion a symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth a'r rheiny na ellid eu cysylltu â chyrchfan. Fodd bynnag, nid oes tueddiadau o'r fath mewn disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 neu sy'n cael eu gosod mewn grŵp blwyddyn heblaw Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11.

**Ffigur 11a: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019, yn ôl grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim yr ysgol yn 2017-2018**

| Grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11 | A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth | Na ellid eu cysylltu â chyrchfan | Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau) |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 10% | 0.26% | 1.04% | 1.54% | 2.84% |
| Dros 10% a hyd at, ac yn cynnwys, 15% | 0.39% | 1.61% | 2.02% | 4.02% |
| Dros 15% a hyd at, ac yn cynnwys, 20% | 0.57% | 1.40% | 2.86% | 4.83% |
| Dros 20% a hyd at, ac yn cynnwys, 30% | 0.30% | 1.78% | 2.15% | 4.22% |
| Dros 30% | 0.25% | 4.42% | 3.04% | 7.71% |
| Pob ysgol | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

### Y cysylltiad rhwng cyfran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a lefelau dilyniant o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11

23 Mewn ffordd debyg i drefnu ysgolion yn grwpiau yn ôl lefelau cymhwyster prydau ysgol am ddim, at ddiben y dadansoddiad hwn, mae ysgolion wedi cael eu trefnu'n grwpiau yn ôl cyfran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu sydd â darpariaeth gweithredu gan yr ysgol a mwy[1].

24 Mae Ffigur 12a yn dangos bod cyfran y disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn cynyddu wrth i gyfran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gynyddu o fewn ysgol. Mae hyn yn gyson â'n canfyddiadau fod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn llai tebygol o symud ymlaen yn uniongyrchol o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 mewn ysgol a gynhelir o gymharu â'u cyfoedion.

**Ffigur 12a: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019, yn ôl carfan anghenion addysgol arbennig ysgol (datganiad neu gweithredu gan yr ysgol a mwy) yn 2017-2018**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion sydd â datganiad neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 7% | 0.32% | 1.23% | 1.72% | 3.26% |
| Dros 7% a hyd at, ac yn cynnwys, 10% | 0.28% | 1.48% | 2.14% | 3.90% |
| Dros 10% a hyd at, ac yn cynnwys, 15% | 0.35% | 1.74% | 1.98% | 4.06% |
| Dros 15% a hyd at, ac yn cynnwys, 20% | 0.53% | 1.73% | 2.63% | 4.89% |
| Dros 20% | 0.47% | 4.82% | 4.36% | 9.65% |
| | | | | |
| Pob ysgol | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

[1] Bydd athro plentyn neu'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig (CydAAA) yn casglu gwybodaeth am blentyn ac yn trafod gyda rhieni/gofalwyr os byddant yn meddwl bod gan y plentyn anghenion addysgol arbennig a pha gymorth ychwanegol neu wahanol sydd ei angen. Gweithredu gan yr Ysgol yw hyn. Os bydd pryderon nad yw cynnydd plentyn gyda chymorth ar Gweithredu gan yr Ysgol yn ddigonol, bydd y CydAA yn gofyn i rieni/gofalwyr am ganiatâd i geisio rhagor o gyngor gan wasanaethau cymorth allanol.

### Y cysylltiad rhwng cyfrwng iaith yr ysgol a lefelau dilyniant o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11

25 At ddiben y dadansoddiad hwn, mae ysgolion wedi cael eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith, yn unol â’r meini prawf a amlinellir yn Atodiad 3.

26 Mae lefelau disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 ar eu hisaf mewn ysgolion lle mae’r ddarpariaeth yn un cyfrwng Cymraeg yn bennaf (Ffigur 13a). Mae hyn yn arbennig o wir am gyfradd y disgyblion sy’n trosglwyddo i addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth. Yn yr ysgolion hyn, parhaodd 97.6% o ddisgyblion Blwyddyn 10 â’u haddysg ym Mlwyddyn 11 mewn ysgol brif ffrwd. Gellid esbonio’r duedd hon gan y ffaith fod lefelau is o gymhwyster prydau ysgol am ddim a lefelau is o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn yr ysgolion hyn ar y cyfan.

**Ffigur 13a: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019, yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol yn 2017-2018**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Cyfrwng Cymraeg yn bennaf (39 ysgol) | 0.43% | 0.87% | 1.13% | 2.43% |
| Dwyieithog (24 ysgol) | 0.87% | 1.37% | 3.61% | 5.85% |
| Cyfrwng Saesneg yn bennaf (145 ysgol) | 0.27% | 1.84% | 2.13% | 4.24% |
| Pob ysgol | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

27 Yn adroddiad thematig Estyn (2016, tud.4) ar addysg heblaw yn yr ysgol, fe wnaethom nodi bod

> *‘cyfleoedd eithriadol o gyfyngedig i barhau â’u dysgu yn Gymraeg pan fyddant yn dechrau mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol’.*

28 Gallai hwn hefyd fod yn ffactor sy’n cyfrannu at y ffaith fod llai o ddisgyblion yn gadael yr ysgolion hynny sy’n rhai cyfrwng Cymraeg yn bennaf rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Gan fod y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig, nid oes gan yr ysgolion hyn ddewis heblaw sicrhau bod darpariaeth addas ar gael yn yr ysgol.

29 Mae cyfraddau disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 ar eu huchaf mewn ysgolion dwyieithog. Mae'r grŵp hwn o ysgolion yn fach, ac efallai nad yw'r duedd hon yn arwyddocaol yn ystadegol.

### Patrymau daearyddol

30 Pan ystyrir y data dilyniant yn y tri chategori a amlinellir yn ffigur 14a (a ffigur 14b yn Atodiad 5), mae tuedd ddaearyddol. O'r disgyblion a wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn heblaw 10 neu 11, roedd tua hanner ohonynt mewn ychydig o awdurdodau lleol. At ei gilydd, ni fu trefniadau i fonitro symudiadau disgyblion mewn ychydig o awdurdodau lleol yn ddigon trylwyr.

31 O'r disgyblion sy'n symud i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarparwr, menw ychydig llai na hanner yr awdurdodau lleol, roedd canran y disgyblion Blwyddyn 10 a oedd yn symud i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarparwr yn 2018-2019 yn llai nag 1% o ddisgyblion. Roedd dros 3% o ddisgyblion Blwyddyn 10 ychydig o awdurdodau lleol yn trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth. Mae'r cyfraddau yn yr awdurdodau lleol hyn dros ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 1.7%. Roedd dros 7% o ddisgyblion ychydig iawn o awdurdodau yn trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol rhywbryd rhwng Ionawr Blwyddyn 10 a Ionawr Blwyddyn 11.

32 Ni wnaeth dadansoddiad o ddisgyblion na ellid eu cysylltu â chyrchfan nodi unrhyw dueddiadau clir ar sail awdurdod lleol. Nid yw cyfraddau mewn awdurdodau lleol trefol, lle mae'r boblogaeth yn fwy symudol, yn uwch na'r rheiny mewn awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, ar lefel ysgol, roedd cyfraddau disgyblion na ellid eu cysylltu â chyrchfan yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn nifer o ysgolion sydd wedi eu lleoli yn agosach at y ffin â Lloegr, lle gallai disgyblion fod wedi symud i ysgol yn Lloegr i gwblhau eu haddysg.

**Ffigur 14a: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019, yn ôl awdurdod lleol**

| | | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod lleol** | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Ynys Môn | 621 | 0.97% | 0.81% | 3.54% | 5.31% |
| Gwynedd | 1,209 | 1.41% | 2.15% | 3.72% | 7.28% |
| Conwy | 1,057 | * | 4.16% | 1.99% | * |
| Sir Ddinbych | 1,109 | * | 7.12% | 1.80% | * |
| Sir y Fflint | 1,560 | 0.58% | 0.58% | 3.59% | 4.74% |
| Wrecsam | 1,142 | 0.70% | 1.31% | 4.47% | 6.48% |
| Powys | 1,245 | * | 0.48% | 2.73% | * |
| Ceredigion | 717 | * | 1.26% | 1.67% | * |
| Sir Benfro | 1,116 | * | 2.60% | 0.63% | * |
| Sir Gaerfyrddin | 1,942 | 0.98% | 0.46% | 4.17% | 5.61% |
| Abertawe | 2,405 | * | 0.33% | 1.66% | * |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,444 | 0.42% | * | 1.45% | * |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,472 | * | 3.40% | 1.56% | * |
| Bro Morgannwg | 1,470 | 0.41% | 1.16% | 1.84% | 3.40% |
| Rhondda Cynon Taf | 2,709 | 0.00% | 0.52% | 0.96% | 1.48% |
| Merthyr Tudful | 574 | * | 8.19% | 1.92% | * |
| Caerffili | 1,992 | 0.40% | 2.01% | 0.85% | 3.26% |
| Blaenau Gwent | 525 | * | 0.00% | 2.86% | * |
| Torfaen | 1,041 | * | * | 1.54% | 1.92% |
| Sir Fynwy | 808 | 0.00% | 1.36% | 1.73% | 3.09% |
| Casnewydd | 1,644 | * | 1.22% | 2.37% | * |
| Caerdydd | 3,381 | 0.35% | 2.28% | 2.10% | 4.73% |
| Cymru | 31,183 | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |

*Mae eitemau data yn seiliedig ar garfanau sy'n fwy na sero ond yn llai na phump wedi cael eu hatal. Hefyd, ni ellir datgelu ffigurau pellach er mwyn sicrhau na ellir codi ffigurau wedi'u hatal trwy dynnu o gyfansymiau.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

## Ymchwilio i ffactorau eraill a allai effeithio ar lefelau dilyniant

33 Fel rhan o'r arolwg thematig hwn, ymchwiliwyd i'r ffactorau canlynol hefyd, ond ym mhob achos, ni chanfuwyd unrhyw gysylltiad cryf rhwng y ffactorau hyn a lefelau disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11:

- Ysgol sy'n ysgol ffydd
- Categori cymorth cod lliw ysgol
- Ysgol â lefelau uchel o ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt

Gellir gweld y dadansoddiad data ar gyfer y ffactorau hyn yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

## Disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10

34 Hyd at 2014-2015, roedd holl fesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar garfan y disgyblion a oedd yn 15 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn ysgol honno. Er 2015-2016, mae cyfrifiadau data perfformiad yn cyfeirio at ddata ar y garfan Blwyddyn 11 a gasglwyd yn ystod datganiad CYBLD ym mis Ionawr. Gwnaed y newid hwn i adlewyrchu'r ffaith nad oedd rhai disgyblion a oedd yn 15 mlwydd oed ar 1 Medi ym Mlwyddyn 11 am resymau dilys. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys:

- disgyblion a anwyd ar ddiwedd yr haf neu ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig a dreuliodd flwyddyn ychwanegol yn eu hysgol gynradd
- disgyblion a fu'n absennol am resymau meddygol neu am resymau eraill, ac a symudodd yn ôl flwyddyn ysgol i gefnogi eu dysgu
- disgyblion a ddaeth o dramor ac a arhosodd yn ôl flwyddyn i wella eu medrau iaith

### Canfyddiadau o ddadansoddi data

35 Mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos, hyd at 2014-2015, mai nifer fach iawn o ddisgyblion oedd yn ail-wneud Blwyddyn 10. Fodd bynnag, rhwng 2015-2016 a 2017-2018, bu twf yn nifer y disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10. Mae'r cynnydd yn y cyfraddau hyn wedi cyd-fynd â'r newid i garfan y disgyblion a ddefnyddir i gyfrifo data ysgol ac yn awgrymu bod rhai ysgolion yn cofrestru ychydig iawn o ddisgyblion fel disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 (neu'n eu rhoi mewn blwyddyn ysgol arall) i eithrio eu deilliannau o ddata'r ysgol a adroddir. Yn 2017-2018, roedd canran y disgyblion a ail-wnaeth Flwyddyn 10 chwe gwaith yn fwy na'r gyfradd yn 2013-2014. Yn 2018-2019, disgynnodd canran y disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10. Gallai hyn fod wedi cael ei ddylanwadu gan gyflwyno gwiriadau dilysu llymach pan fydd ysgolion yn cyflwyno eu data CYBLD. Fodd bynnag, mae'r gyfradd hon dros deirgwaith yn uwch na'r gyfradd yn 2013-2014 o hyd.

36 O'r 91 disgybl a wnaeth ail-wneud Flwyddyn 10 yn 2018-2019, roedd dros hanner y disgyblion hyn mewn ychydig iawn o ysgolion. O'r disgyblion a roddwyd mewn grŵp blwyddyn heblaw Blwyddyn Year 10 neu 11, roedd pob un o'r disgyblion hyn mewn ychydig iawn o ysgolion.

37 Yn gyffredinol, nid yw llawer o ddisgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 i gwblhau eu haddysg. O'r 168 o ddisgyblion a ymddangosodd ar CYBLD 2018 fel disgyblion a ail-wnaeth Flwyddyn 10 yn 2017-2018, 38 o'r disgyblion hyn yn unig a ymddangosodd ar CYBLD 2019 fel disgyblion a symudodd ymlaen i Flwyddyn 11. Ni wnaeth saith deg saith y cant o'r disgyblion a wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 symud ymlaen i Flwyddyn 11. O ganlyniad, efallai na fydd disgyblion yn cwblhau eu cyrsiau astudio neu'n ennill ystod briodol o gymwysterau i'w galluogi i symud ymlaen i astudio ymhellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Patrymau mewn cofrestriadau TGAU ar gyfer disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10

38 Yn 2018, newidiwyd y rheolau ar gyfer cofnodion lluosog i ystyried y tro cyntaf y mae disgybl yn sefyll unrhyw gymhwyster wrth gyfrifo mesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 ysgol. Carfan Blwyddyn 11 y disgyblion a fydd yn gorffen eu haddysg orfodol ym mis Mehefin 2019 yw'r garfan gyntaf o ddisgyblion i gael ei heffeithio gan y newid hwn. Mae Ffigur 15 yn dangos bod cyfanswm nifer y cofrestriadau TGAU yn yr haf ar gyfer disgyblion a oedd yn ddisgyblion Blwyddyn 10 neu'n iau wedi gostwng 77.4% o 63,310 i 14,290. Ar gyfer yr holl ddisgyblion Blwyddyn 10 yng Nghymru yn 2019, roedd nifer gyfartalog y cofrestriadau TGAU fesul disgybl yn tua hanner TGAU.

**Ffigur 15: Cyfanswm nifer y cofrestriadau TGAU yn ôl oedran, 2014 - 2019**

| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019(p) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cofrestriadau TGAU | 317,980 | 309,190 | 303,620 | 334,100 | 290,640 | 303,635 |
| Blwyddyn 10 neu'n iau | 46,500 | 46,710 | 44,900 | 63,310 | 14,290 | 14,865 |
| Nifer y disgyblion (Blwyddyn 10) [a] | 33,570 | 32,527 | 31,967 | 31,085 | 31,914 | 32,231 |
| Nifer gyfartalog y Cofrestriadau TGAU | 1.4 | 1.4 | 1.4 | 2.0 | 0.4 | 0.5 |

(p) – dros dro

[a]Mae'r carfanau Blwyddyn 10 a gyflwynir yma yn wahanol i'r rheiny a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gan eu bod yn cynnwys disgyblion mewn ysgolion arbennig a gynhelir a disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Ni chaiff disgyblion Blwyddyn 10 mewn ysgolion annibynnol eu cynnwys.

Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru (2019a, 2019b, tud.7)

39 Mae dadansoddiad o ddata yn awgrymu nad oedd mwyafrif y disgyblion a oedd yn ail-wneud Blwyddyn 10 yn gwneud hynny am resymau dilys. Mae dadansoddiad o'r 168 o ddisgyblion a wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 yn 2017-2018 yn dangos bod 108 o'r disgyblion hyn wedi cael eu cofrestru ar gyfer cyrsiau TGAU ar ddiwedd y Flwyddyn 10 a ailwnaethant. Nifer gyfartalog y cofrestriadau ar gyfer y 108 o'r disgyblion hyn oedd 4.3. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch na 0.4, sef nifer y cofrestriadau ar gyfer y disgybl Blwyddyn 10 cyffredin yn 2018. Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod rhai ysgolion yn defnyddio hyn fel mecanwaith lle mae rhai disgyblion yn dilyn amserlen Blwyddyn 11, ond eu bod wedi eu cofrestru ym Mlwyddyn 10 fel nad yw eu deilliannau'n cyfrannu at fesurau perfformiad allweddol yr ysgol.

## Trefniadau awdurdodau lleol i fonitro disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10

40 Roedd polisïau a phrotocolau addas gan bob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adroddiad thematig hwn i adolygu a monitro symudiadau disgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys canllawiau sy'n datgan yn glir yr amgylchiadau lle caniateir i ysgolion roi disgybl mewn grŵp blwyddyn nad oedd yn cyd-fynd â blwyddyn ei eni. Roedd pob polisi awdurdod lleol yn caniatáu i benaethiaid symud disgyblion i grŵp blwyddyn arall lle roedd rhesymau dilys dros wneud hynny. Fodd bynnag, mae anghysondebau o ran pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro'r arfer hon.

41 Roedd trefniadau monitro trylwyr gan leiafrif o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, a rhoesant enghreifftiau o ble roeddent wedi nodi disgyblion a oedd yn ail-wneud Blwyddyn 10, ac roeddent wedi archwilio'r rhesymau dros hyn gydag ysgolion unigol. Yn aml, roedd y broses ymchwilio yn cynnwys dadansoddi presenoldeb disgyblion a chraffu ar amserlen ysgol y disgybl. Yn yr awdurdodau lleol prin sy'n monitro arferion cofrestru ysgolion yn ddiwyd, bu effaith gadarnhaol ar benderfyniadau sy'n gysylltiedig â disgyblion yn ail-wneud Blwyddyn 10. Yn 2017-2018, roedd gan yr awdurdodau lleol hyn lefelau isel o ddisgyblion a oedd yn ail-wneud Blwyddyn 10, ac roedd nifer y cofrestriadau arholiadau ar gyfer y disgyblion hyn yn isel hefyd, sy'n awgrymu bod y disgyblion a oedd yn ail-wneud Blwyddyn 10 yn gwneud hynny am resymau dilys a bod ymyrraeth gan yr awdurdod lleol wedi effeithio ar arferion.

**Astudiaeth achos 1: Cyngor Dinas a Sir Abertawe**

**Gwybodaeth am y darparwr**

Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwasanaethu ardal ddinesig Abertawe, y pentrefi cyfagos a Phenrhyn Gŵyr. Mae'r adran addysg yn gyfrifol am oruchwylio addysg tua 36,000 o ddisgyblion ac mae miloedd o symudiadau gan ddisgyblion bob blwyddyn. Mae 19.5% o ddisgyblion ysgol uwchradd yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.6%.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae trefniadau effeithiol ar waith i fonitro symudiadau disgyblion yn Ninas a Sir Abertawe.

**Disgrifiad o weithgarwch/strategaeth**

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data ynglŷn â phresenoldeb, gwaharddiadau, anghenion dysgu ychwanegol, rhifedd, darllen, prydau ysgol am ddim, Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru, plant sy'n derbyn gofal, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), cyfnod caffael Saesneg a symudiadau ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i greu Proffil Asesu Bregusrwydd. Caiff y gofrestr ei diweddaru bob blwyddyn ac fe'i defnyddir i fonitro cynnydd y disgyblion hyn o un flwyddyn i'r llall.

Mae'r awdurdod yn gweithio gyda'r ysgol a'r uned llywodraethwyr i adolygu ceisiadau am drosglwyddiadau rhwng ysgolion. Mae ganddo brotocolau sy'n gwneud yn glir i ysgolion beth yw'r gofyniad i drosglwyddo gwybodaeth ar lefel disgybl pan fydd disgybl yn trosglwyddo i ddarparwr addysg arall. Dros sawl blwyddyn, mae'r awdurdod wedi sicrhau bod hyn yn digwydd yn effeithiol ac yn effeithlon. O ganlyniad, mae darparwyr newydd yn gwbl ymwybodol o amgylchiadau disgybl, a gall disgyblion sy'n symud rhwng ysgolion ymgynefino'n gyflym yn eu lleoliad newydd.

Caiff systemau data'r awdurdod eu diweddaru bob dydd o systemau lefel ysgol. Caiff cofnodion presenoldeb ac amserlenni disgyblion eu dadansoddi i sicrhau nad yw ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr.

Gofynnir i ysgolion ddatgan eu rhesymau dros newid blwyddyn ysgol disgybl. Pan fydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod yr arfer hon er lles pennaf disgyblion, rhoddir nodyn ar y system fel nad oes angen ailymchwilio i'r mater hwn pan fydd yr ysgol yn cyflwyno'i CYBLD. Os nad yw'r awdurdod yn fodlon, bydd yn cysylltu ag ysgolion i sicrhau eu bod yn cofrestru disgyblion yn y flwyddyn ysgol gywir.

Mae gan yr awdurdod fesurau cadarn ar waith i fonitro cyflwyniadau CYBLD ysgolion. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau system cyn-CYBLD a thri cham ar ôl cyflwyno sy'n sicrhau bod ysgolion bob amser yn rhoi gwybodaeth gywir.

Pan fydd cofrestriad deuol gan ddisgyblion, mae ganddynt brif gofrestriad deuol gyda'r darparwr lle mae disgyblion yn derbyn mwyafrif eu haddysg. Creffir ar gofnodion presenoldeb i sicrhau bod cofrestriad y disgyblion hyn yn gywir.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Er mai awdurdod lleol Abertawe sydd â'r chweched canran uchaf o ran prydau ysgol am ddim o'r 22 awdurdod yng Nghymru, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Abertawe wedi cyflawni'r pumed sgôr pwyntiau uchaf wedi'i chapio a'r ganran bumed uchaf o ddisgyblion sy'n cyflawni y trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Yn 2019, ceir niferoedd isel iawn o ddisgyblion yn ysgolion Abertawe wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10, a chyfraddau isel iawn o ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel y prif ddarparwr yn ystod eu hastudiaethau cyfnod allweddol 4.

42 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, nid yw prosesau ar gyfer monitro achosion lle nad yw disgyblion yn y flwyddyn ysgol sy'n cyfateb i flwyddyn eu geni yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, mae niferoedd uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion nad ydynt yn y flwyddyn ysgol sy'n cyfateb i flwyddyn eu geni mewn ysgolion yn yr awdurdodau lleol hyn.

## Y twf yn nifer y disgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 ac sy'n dilyn addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth

43 Gall disgyblion sy'n derbyn eu haddysg mewn darpariaeth heblaw yn yr ysgol fod â chofrestriad unigol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol ac nid ydynt wedi eu cofrestru mewn unrhyw ysgol, neu mae ganddynt gofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a'r ysgol, fel ei gilydd. Pan fydd gan ddisgyblion gofrestriad deuol gyda dau ddarparwr, bydd un ohonynt yn cofrestru'r disgybl fel disgybl sydd â phrif gofrestriad deuol, a bydd y llall yn cofrestru'r disgybl fel disgybl â chofrestriad deuol atodol. Pan fydd gan ddisgyblion gofrestriad unigol neu brif gofrestriad deuol, mae deilliannau'r disgyblion yn cyfrif tuag at ddata perfformiad cyfnod allweddol 4 y darparwr. Pan fydd gan ddisgybl gofrestriad deuol atodol gydag ysgol (a phrif gofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol), nid yw data'r disgybl yn cyfrif tuag at ddata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol.

44 Dywedodd adroddiad thematig Estyn (2016, tud.4) ar addysg heblaw yn yr ysgol:

> *I lawer o ddisgyblion, mae addysg heblaw yn yr ysgol yn rhoi ail gyfle iddynt lwyddo. Mae presenoldeb llawer o ddisgyblion yn gwella ac mae ganddynt fwy o symbyliad i ddysgu gan eu bod yn cael profiadau dysgu diddorol.*
>
> *Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn astudio cyrsiau galwedigaethol. Mae'r profiadau hyn yn aml yn symbylu disgyblion i wneud yn dda. Dysgant y medrau y mae eu hangen i fanteisio ar hyfforddiant neu waith pellach. Maent yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'r maes gwaith y dymunant ei ddilyn.*

45 Fodd bynnag, mae'r un adroddiad yn datgan:

> *Nid yw disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu manteisio'n gyfartal ar eu hawl i addysg o gymharu â'u cymheiriaid … Fel arfer, nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu cael at gwricwlwm teg a chytbwys sy'n eu galluogi i ennill cymwysterau sy'n bodloni eu hanghenion a'u potensial …*
>
> *Nid yw disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael yr addysg amser llawn (25 awr yr wythnos, fel arfer) y mae hawl ganddynt ei chael* (Estyn, 2016, tud.4).

### Newidiadau mewn arferion cofrestru ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

46 Er 2013-2014, bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gadael addysg brif ffrwd yn ystod cyfnod allweddol 4 i ddilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarparwr addysg. Mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos bod canran y disgyblion sy'n gadael addysg brif ffrwd i ddilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarparwr rhwng mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 a mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 bron wedi dyblu er 2013-2014. Mae Ffigur 16 yn dangos bod cyfanswm nifer y disgyblion sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (cofrestriad unigol, prif gofrestriad

deuol neu gofrestriad deuol atodol) wedi gostwng ychydig dros yr un cyfnod. Mae hyn yn awgrymu, er nad yw nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol wedi newid yn sylweddol, bod llai o ddisgyblion bellach yn trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, ac yn aros â phrif gofrestriad deuol gyda'r ysgol. Mae mwy o ddisgyblion yn trosglwyddo i fod â phrif gofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol, ac felly nid yw eu deilliannau'n cyfrif tuag at ddata perfformiad allweddol yr ysgol.

47 Ar gyfer carfan y disgyblion ym Mlwyddyn 10 ym mis Ionawr 2017-2018 a oedd wedi trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarparwr erbyn CYBLD mis Ionawr ym Mlwyddyn 11, roedd mwyafrif y disgyblion hyn mewn ychydig o ysgolion.

48 Amlinellir y canllawiau ar gofrestriad deuol disgyblion yn Atodiad 1 y 'Nodiadau cwblhau technegol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion ar gasglu data presenoldeb' ac mae'n datgan:

*Lle bo disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol rhwng ysgol brif ffrwd ac uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig, dylai'r ddau sefydliad gadw cofnod disgybl ar ei gyfer. Dylai un sefydliad gofnodi 'Prif Sefydliad' fel statws cofrestru'r disgybl a dylai'r llall gofnodi statws 'Is-sefydliad' ar ei gyfer.*

*Wrth benderfynu pa sefydliad yw'r 'Prif Sefydliad' neu'r 'Is-sefydliad', dylai ysgol ystyried ym mha leoliad y mae'r disgybl yn debygol o dreulio y rhan fwyaf o'i amser yn ystod y flwyddyn academaidd. Er enghraifft:*


- *os yw disgybl yn treulio diwrnod yr wythnos mewn ysgol arbennig neu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, dyna fydd ei Is-sefydliad*
- *os bydd disgybl yn mynd i Uned Cyfeirio Disgyblion yn amser llawn am gyfnod penodol, efallai ychydig o wythnosau, gan wedyn ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd, yr Uned Cyfeirio Disgyblion fyddai'r Is-sefydliad*
- *Os bwriedir i ddisgybl dreulio dros hanner y flwyddyn academaidd yn yr ysgol arbennig neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion, dylai'r cofnodion ddangos yr ysgol arbennig neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion fel y Prif sefydliad* (Llywodraeth Cymru, 2018b, tt.15-16).

49 Er bod y canllawiau'n syml, ceir canlyniad anfwriadol y gall ysgolion wella eu data perfformiad cyfnod allweddol 4 a adroddir trwy sicrhau bod unrhyw ddisgybl sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol naill ai wedi'i gofrestru'n unigol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol, neu fod ganddo brif gofrestriad deuol â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a chofrestriad deuol atodol gyda'r ysgol. Pan fydd gan ddisgybl brif gofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a chofrestriad deuol atodol yn yr ysgol, nid oes cymhelliant i'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol i sicrhau cyfnod pontio esmwyth a'r ddarpariaeth orau posibl i'r disgybl.

50 Nid yw data ar statws cofrestru disgyblion sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol wedi'i gyhoeddi ar gyfer grwpiau blwyddyn ysgol ar wahân. Felly, mae'r dadansoddiad canlynol ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, bu newid yn y ffordd y caiff

disgyblion sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol eu cofrestru (Ffigur 16). Rhwng 2013-2014 a 2017-2018, bu twf yng nghanran y disgyblion nad ydynt ar y gofrestr mewn ysgol brif ffrwd. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y disgyblion sydd â chofrestriad deuol atodol gyda'r ysgol. Mae cyfran y disgyblion sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ond yn cadw prif gofrestriad deuol gydag ysgol brif ffrwd wedi gostwng er 2013-2014. Mae'r ganran hon bron wedi haneru. Mae hyn yn gyson â'n canfyddiadau fod canran y disgyblion Blwyddyn 10 sy'n gadael yr ysgol yn ystod cyfnod allweddol 4 i ddilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarparwr bron wedi dyblu. Efallai na fydd cyfanswm nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 wedi newid yn sylweddol, ond mae mwy ohonynt bellach yn cael eu cofrestru â phrif gofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol.

**Ffigur 16: Nifer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru (cofrestriad unigol, prif gofrestriad deuol neu gofrestriad deuol atodol) gyda darparwr addysg heblaw yn yr ysgol, 2013-2014 i 2018-2019**




Ffynhonnell: (Llywodraeth Cymru, 2019b, tud.4)

## Monitro symudiadau disgyblion gan awdurdodau lleol

51 Roedd pob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg thematig hwn wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer monitro symudiadau disgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys protocolau clir i ysgolion eu dilyn pan oedd disgybl yn symud oddi ar gofrestr yr ysgol, a threfniadau ar gyfer ymchwilio i senarios lle roedd disgyblion yn mynd ar goll o addysg. Roedd y rhain yn cynnwys defnydd priodol o bartneriaethau gydag adrannau eraill fel byrddau iechyd lleol ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff ychydig o awdurdodau lleol eu cynnwys mewn partneriaeth beilot ddefnyddiol gyda CThEM lle caiff plant sy'n colli addysg eu holrhain gan ddefnyddio cofnodion enillion eu teuluoedd.

52 Roedd pob awdurdod lleol wedi rhoi trefniadau addas ar waith i gynorthwyo ysgolion â symudiadau rheoledig disgyblion. Roedd lleiafrif ohonynt wedi adolygu eu protocolau yn ddiweddar iawn i ymateb i adroddiad diweddar Estyn (2018) ar Symudiadau Rheoledig.

53 Mae gan bob awdurdod lleol systemau addas ar gyfer olrhain disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny sydd â chofrestriad deuol ac sydd felly'n cael eu haddysgu mewn mwy nag un sefydliad.

54 Yn yr awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt, mae anghysondebau wrth gymhwyso'r canllawiau ar gyfer cofrestriad deuol disgyblion. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt, roedd cyfuniad o arferion cofrestru, yn dibynnu ar statws y darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a pha mor dda yr oedd disgyblion yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Yn 2015, cyhoeddodd Estyn (2015, tud.25) ei adroddiad thematig, sef 'Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda' lle mae'n datgan:

> *Lle ceir arfer dda, mae ysgolion yn cadw cysylltiadau agos â'u disgyblion ac mae disgyblion yn aros ar gofrestr yr ysgol.*

55 Mae'r data yn Ffigur 16 a sylwadau lleiafrif o swyddogion awdurdod lleol y gwnaed arolwg ohonynt yn awgrymu bod llai o'r arfer dda hon yn digwydd, a bod ysgolion yn ceisio gwneud yn siŵr nad oes ganddynt gyfrifoldeb mwyach am y disgyblion sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Pan fydd gan y disgybl gofrestriad deuol atodol yn yr ysgol, efallai mai prin yw'r cymhelliant i'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol.

56 Dywedodd lleiafrif o swyddogion awdurdod lleol y gwnaed arolwg ohonynt fod ysgolion yn awyddus i ddisgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol gael prif gofrestriad deuol â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol fel na fyddai deilliannau'r disgybl wedyn yn cael eu cyfrif yn nata perfformiad cyfnod allweddol 4 yr ysgol. Mae ysgolion yn gweld bod hyn yn ffordd hawdd iddynt wella eu data perfformiad. Yn ychwanegol, un o brif ganfyddiadau adroddiad thematig Estyn (2016, tud.5) ar addysg heblaw yn yr ysgol oedd hyn:

> *Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw'r prosesau [cyfeirio] hyn yn sicrhau bod gwybodaeth asesu a gwybodaeth arall yn cael ei throsglwyddo'n brydlon o'r ysgol i'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol.*

57 Pan gaiff disgyblion eu trosglwyddo i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarparwr, prin yw'r cymhelliant i'r ysgol sicrhau eu bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol a throsglwyddo gwybodaeth disgyblion yn brydlon.

58 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae prif gofrestriad deuol gyda'r ysgol gan yr holl ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, ac eithrio'r rheiny sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion. Y rhesymeg y tu ôl i'r polisi hwn yw bod gan yr ysgol rwymedigaeth foesol i'w disgyblion, ac felly dylai gadw cyfrifoldeb cyffredinol am bob disgybl. Yn yr awdurdod lleol hwn, o ganlyniad i orfodi'r polisi hwn, mae ysgolion ond yn cyfeirio disgyblion at addysg heblaw yn yr ysgol lle mae hyn er lles pennaf y disgybl. Pan gaiff deilliannau disgyblion eu cynnwys yn nata perfformiad yr ysgol, mae mwy o gymhelliant hefyd i'r ysgol fonitro cynnydd y disgybl

a gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol. Dywedodd y swyddog yn ein cyfarfod yn yr awdurdod lleol hwn fod ysgolion yn gofyn i ddisgyblion gael cofrestriad deuol atodol yn yr ysgol, ond bod yr awdurdod lleol wedi gwrthod y ceisiadau hyn.

59 Mae dadansoddiad o ddata yn awgrymu bod anghysondebau wrth gofrestru disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn yr awdurdodau lleol eraill nad ymwelwyd â nhw. Mae canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol rhwng mis Ionawr ym Mlwyddyn 10 a mis Ionawr ym Mlwyddyn 11 i ddilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarparwr yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r cyfrannau hyn yn amrywio o 0% i 8.2%.

60 Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn cydweithio â cholegau addysg bellach lleol ac asiantaethau eraill i gyflwyno darpariaeth amgen ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4. Mae hyn i ymateb i adroddiad thematig Estyn (2016, tud.4) ar addysg heblaw yn yr ysgol yn 2016, a amlygodd rai o brif gryfderau'r dull hwn fel a ganlyn:

- *I lawer o ddisgyblion, mae addysg heblaw yn yr ysgol yn rhoi ail gyfle iddynt lwyddo. Mae presenoldeb llawer o ddisgyblion yn gwella ac mae ganddynt fwy o symbyliad i ddysgu gan eu bod yn cael profiadau dysgu diddorol.*
- *Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn astudio cyrsiau galwedigaethol. Mae'r profiadau hyn yn aml yn symbylu disgyblion i wneud yn dda. Dysgant y medrau y mae eu hangen i fanteisio ar hyfforddiant neu waith pellach. Maent yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'r maes gwaith y dymunant ei ddilyn.*

61 Fodd bynnag, mae anghysondebau yn arferion cofrestru'r disgyblion hyn. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r disgyblion hyn yn aros fel disgyblion sydd â phrif gofrestriad deuol gyda'r ysgol, ond mewn awdurdodau lleol eraill, mae gan y disgyblion hyn gofrestriad deuol atodol gyda'r ysgol. Pan fydd gan ddisgybl brif gofrestriad deuol gyda'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn nata'r ysgol), nid yw ysgolion yn monitro cynnydd y disgyblion hyn yn ddigon da ar y cyfan.


62 Er y bu'r trefniadau hyn yn llwyddiannus o ran sicrhau bod disgyblion mwy agored i niwed yn gallu dilyn llwybrau dysgu mwy addas, nid yw'r disgyblion hyn yn cyflawni trothwyau lefel 1 a lefel 2. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r terfyn galwedigaethol ar y trothwyau hyn, lle gall dau yn unig o'r pum cymhwyster fod yn gymwysterau galwedigaethol. Nid yw'r mesurau perfformiad presennol yn adlewyrchu pa mor dda y mae ysgolion yn darparu llwybrau i ddisgyblion eu dilyn ar ôl eu haddysg orfodol.

## Disgyblion yng Nghymru sy'n cael eu haddysgu gartref

63 Bydd rhai o'r disgyblion sydd wedi eu categoreiddio fel 'disgyblion na ellir eu cysylltu â chyrchfan' wedi symud oddi ar gofrestr ysgol rhwng CYBLD Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i gael eu haddysgu gartref. O fewn cwmpas yr adroddiad hwn, fe wnaethom ymchwilio i themâu bras yn unig, ac adolygu trefniadau monitro'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw. Fel rhan o'r CYBLD, cesglir data ar ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref. Fodd bynnag, ni chaiff y data hwn ei gasglu gan awdurdodau lleol ar lefel disgybl. Mae hyn oherwydd na fyddai disgyblion sydd wedi cael eu haddysgu gartref erioed ac nad ydynt erioed wedi mynychu ysgol yn meddu ar rif unigryw disgybl. Felly, ni ellir casglu data ar lefel disgybl. Felly, nid yw'r data sydd ar gael yn galluogi i ni wybod faint o ddisgyblion Blwyddyn 10 nad ydynt yn symud ymlaen i Flwyddyn 11 a symudodd i gael eu haddysgu gartref am weddill eu haddysg orfodol.

64 Er 2013-2014, bu cynnydd cyson yng nghyfradd y disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref (Ffigur 17).

**Ffigur 17: Cyfradd (fesul 1,000 o ddisgyblion) y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu haddysgu gartref, 2013-2014 i 2018-2019**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2019b, tud.14)

65 Roedd protocolau clir gan bob awdurdod lleol y gwnaed arolwg ohonynt y dylai ysgolion eu dilyn pan fydd rhiant yn gofyn am gael tynnu ei blentyn oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn ei addysgu gartref. Gan nad yw rhai o'r disgyblion hyn erioed wedi mynychu ysgol, nid oes gan bob un o'r disgyblion hyn rif unigryw disgybl, ac felly mae'n anodd i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill olrhain a monitro'r disgyblion hyn.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Yn yr adroddiad hwn, ystyriwyd adroddiadau thematig blaenorol Estyn, canfyddiadau arolygiadau a data a gymerwyd o'r canlynol:

- Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Y Cyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.

Yn yr adroddiad, ystyriwyd nifer o gyhoeddiadau ystadegol gan Lywodraeth Cymru.

Ymwelodd arolygwyr â detholiad o bum awdurdod lleol.

**Dyma'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth hon:**

Cyngor Caerdydd
Cyngor Sir Gâr
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Caerffili

Yn ychwanegol, ystyriwyd tystiolaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau o ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac awdurdodau lleol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Atodiad 2: Cwestiynau i gefnogi monitro a gwerthuso gan gyrff llywodraethol

Mae'r canlynol yn gwestiynau posibl i gefnogi monitro a gwerthuso dilyniant disgyblion gan gyrff llywodraethol ar ôl cwblhau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

1 Faint o ddisgyblion oedd yng ngharfan Blwyddyn 10 yn CYBLD y flwyddyn flaenorol nad ydynt yn y garfan Blwyddyn 11 bresennol? Faint o ddisgyblion a oedd yng ngharfan Blwyddyn 9 yn CYBLD y flwyddyn flaenorol nad ydynt yn y garfan Blwyddyn 10 bresennol?

2 Beth yw cyrchfannau'r disgyblion hyn? Pryd cawsant eu tynnu oddi ar y gofrestr? Beth oedd y rhesymeg dros dynnu'r disgyblion hyn oddi ar gofrestr yr ysgol?

3 Faint o ddisgyblion o'r garfan Blwyddyn 10 bresennol sy'n ail-wneud Blwyddyn 10? Beth yw'r rhesymau pam mae'r disgyblion hyn yn ail-wneud Blwyddyn 10?

4 Faint o ddisgyblion o'r garfan Blwyddyn 10 bresennol sy'n dilyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? Pam symudodd y disgyblion hyn i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? Faint o'r rhain sydd â phrif gofrestriad deuol gyda'r ysgol? Faint ohonynt sydd â chofrestriad atodol? Beth yw'r rhesymeg y tu ôl i gofrestriad pob disgybl? Sut mae hyn yn cyd-fynd â pholisïau a phrotocolau'r ysgol ar gynwysoldeb?

5 I ddisgyblion sydd wedi symud i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol: A yw'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg heblaw yn yr ysgol i sicrhau bod y disgybl yn cael ei gynorthwyo'n dda i gwblhau ei astudiaethau yng nghyfnod allweddol 4 a dod o hyd i lwybr addas ar ddiwedd addysg orfodol? A yw'r corff llywodraethol yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd disgyblion mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?

6 Faint o ddisgyblion sydd wedi gadael cofrestr yr ysgol i gael eu haddysgu gartref, a beth yw'r rhesymau dros rieni'n dewis tynnu eu plentyn o'r ysgol a'i addysgu gartref?

7 Pa mor hyderus yw'r corff llywodraethol fod yr holl ddisgyblion sy'n cael eu symud rhwng grwpiau blwyddyn ac i ddarpariaeth allanol yn diwallu anghenion disgyblion unigol?

8 Beth oedd deilliannau Blwyddyn 11 y disgyblion a dynnwyd oddi ar y gofrestr? A yw'r ysgol wedi ystyried beth fyddai deilliannau cyfnod allweddol 4 yr ysgol wedi bod, pe bai canlyniadau'r disgyblion hyn wedi cael eu cynnwys yn y data?

# Atodiad 3: Methodoleg ar gyfer dadansoddi data

## Methodoleg ar gyfer dadansoddi data

I gefnogi'r adroddiad thematig hwn, dadansoddwyd data fel a ganlyn:

- Dechrau â charfan y disgyblion ym Mlwyddyn 10 ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol pob oed ar CYBLD mis Ionawr yn 2017-2018 (fe wnaethom ailadrodd y dadansoddiad ar gyfer carfan 2016-2017 hefyd – gellir gweld y data hwn yn Atodiad 5).

- Defnyddio'r data yn CYBLD mis Ionawr y flwyddyn ganlynol i nodi faint o'r disgyblion hyn sydd wedi symud ymlaen i Flwyddyn 11 yn yr ysgol neu mewn ysgol arall a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig) yng Nghymru. Y disgyblion hyn fydd y rheiny sydd wedi symud ymlaen i Flwyddyn 11.

- Defnyddio'r data sydd ar gael yn CYBLD mis Ionawr yr ail flwyddyn i edrych ar gyrchfannau'r disgyblion nad ydynt wedi symud ymlaen i Flwyddyn 11. Rhannwyd cyrchfannau'r disgyblion yn bedwar categori, sef:

    - Disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10.

    - Disgyblion sydd wedi cael eu rhoi mewn grŵp blwyddyn heblaw Blwyddyn 10 neu 11.

    - Disgyblion sydd wedi symud i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel eu prif ddarparwr.

    - Disgyblion na ellid eu cysylltu â chyrchfan, sef y disgyblion sydd wedi symud oddi ar gofrestrau ysgol rhwng Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11, ond nad ydynt wedi ailymddangos mewn blwyddyn ysgol arall nac mewn darparwr addysg arall yng Nghymru.

Mae rhywfaint o'r dadansoddiad yn cyflwyno cyrchfannau carfanau Blwyddyn 10 yn ôl ffactorau cyd-destunol sy'n gysylltiedig â'r ysgol pan fydd y disgyblion ym Mlwyddyn 10. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r dadansoddiad hwn, cyfunwyd categorïau 'a' a 'b' (uchod) er mwyn osgoi materion yn ymwneud â data datgelol posibl lle mae carfanau'n fach iawn.

Ac eithrio ffigurau 15, 16 ac 17, mae'r dadansoddiad sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata anghyhoeddedig a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfrifiadau a gwblhawyd gan Estyn.

## Categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith

At ddiben y dadansoddiad hwn, mae ysgolion wedi cael eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith fel a ganlyn:

- Cyfrwng Cymraeg yn bennaf – ysgolion lle mae o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl. Mae'r rhain yn ysgolion categori cyfrwng Cymraeg 2A a dwyieithog yn ôl diffiniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007).

- Ysgolion dwyieithog – at ddiben y dadansoddiad hwn, roedd y rhain yn ysgolion lle caiff rhwng 20% ac 80% o bynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg hefyd. Mae hyn yn gyfuniad o'r categorïau canlynol o ysgolion:

    - categori dwyieithog 2B
    - categori dwyieithog 2C
    - cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg

  yn ôl diffiniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007).

- Cyfrwng Saesneg yn bennaf – caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Caiff y Gymraeg ei haddysgu fel ail iaith hyd at gyfnod allweddol 4. Gellir addysgu un neu ddau bwnc (a fyddai'n cynnwys Cymraeg mamiaith) fel opsiwn trwy gyfrwng y Gymraeg neu gan ddefnyddio'r ddwy iaith.


# Atodiad 4: Dadansoddi data ymhellach

**Ffigur 18a: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 mewn ysgolion ffydd, 2018-2019**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Pob ysgol (208 ysgol) | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |
| Ysgolion ffydd (18 ysgol) | 0.26% | 1.28% | 2.11% | 3.64% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 19a: Canran y disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019, yn ôl categoreiddio ysgolion yn 2018**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Llywodraeth Cymru (2019a)

Pan gaiff ysgolion eu harolygu, gellir barnu bod angen ymweliadau dilynol arnynt. Mae tri chategori gweithgarwch dilynol Estyn, sef adolygu gan Estyn, gwelliant sylweddol a mesurau arbennig. Er mwyn ymchwilio i b'un a yw bod mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn yn ffactor yn y lefelau dilyniant, dadansoddwyd cyfraddau ar gyfer yr ysgolion hynny a oedd yn y categori gweithgarwch dilynol Estyn rywbryd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2018, hynny yw cyn cwblhau casgliad CYBLD mis Ionawr 2018. Pan fu ysgolion mewn mwy nag un categori gweithgarwch dilynol Estyn, at ddiben y dadansoddiad hwn, maent wedi cael eu cynnwys yn y categori sy'n cynnwys y lefel fonitro fwyaf.

**Ffigur 20a: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2018-2019 mewn ysgolion yr oedd mwy na 10% o'u disgyblion yn caffael Saesneg fel iaith ychwanegol sydd wedi eu categoreiddio fel 'A', 'B' neu 'C'[2] yn 2017-2018**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11 | A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth | Na ellid eu cysylltu â chyrchfan | Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau) |
| Pob ysgol (208 ysgol) | 0.36% | 1.66% | 2.15% | 4.16% |
| Ysgolion sydd â >10% SIY A-C (12 ysgol) | 0.31% | 1.61% | 2.55% | 4.47% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

[2] Caiff y categorïau hyn eu hesbonio ar wefan geirfa Fy Ysgol Leol (Llywodraeth Cymru, 2013).

## Atodiad 5: Dadansoddi data ar gyfer y disgyblion hynny a oedd ym Mlwyddyn 10 yn 2016-2017

**Ffigur 6b: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, yn ôl rhywedd, 2017-2018**

| | | Canran yn 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau )** |
| Pob disgybl | 30,407 | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |
| Merched | 14,818 | 0.75% | 1.11% | 2.01% | 3.87% |
| Bechgyn | 15,589 | 0.60% | 1.99% | 2.40% | 5.00% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 8b: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, yn ôl cymhwyster prydau ysgol am ddim, 2017-2018**

| | Canran yn 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Pob disgybl | 30,407 | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |
| Ddim yn gymwys am PYDd | 25,365 | 0.49% | 1.04% | 1.68% | 3.21% |
| Yn gymwys am PYDd | 5,042 | 1.61% | 4.20% | 4.88% | 10.69% |


Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 9b: Cyrchfannau disgyblion ar ôl Blwyddyn 10, yn ôl anghenion addysgol arbennig, 2017-2018**

| | | Canran yn 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Pob disgybl | 30,407 | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |
| Disgyblion heb unrhyw AAA | 23,180 | 0.42% | 0.64% | 1.51% | 2.57% |
| Disgyblion ag AAA | 7,227 | 1.48% | 4.52% | 4.47% | 10.47% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 10b: Cyfraddau presenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-2017 y disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018**




Sylwer na ddangosir y bar sy'n cynrychioli canran y disgyblion sy'n ail-wneud Blwyddyn 10 sydd â chyfradd presenoldeb 100%, gan ei bod yn seiliedig ar garfan sy'n fwy na sero ond yn llai na phump.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Cyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Chofnod Presenoldeb Disgyblion

**Ffigur 11b: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018, yn ôl grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim yr ysgol yn 2016-2017**

| Grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11 | A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth | Na ellid eu cysylltu â chyrchfan | Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau) |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 10% | 0.52% | 0.97% | 1.35% | 2.84% |
| Dros 10% a hyd at, ac yn cynnwys, 15% | 0.64% | 1.27% | 2.15% | 4.06% |
| Dros 15% a hyd at, ac yn cynnwys 20% | 1.18% | 1.69% | 2.76% | 5.64% |
| Dros 20% a hyd at, ac yn cynnwys 30% | 0.46% | 1.86% | 2.15% | 4.48% |
| Dros 30% | 0.73% | 3.08% | 3.78% | 7.59% |
| | | | | |
| Pob ysgol | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 12b: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018, yn ôl carfan anghenion addysgol arbennig ysgol (datganiad neu gweithredu gan yr ysgol a mwy) yn 2016-2017**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion sydd â datganiad neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 7% | 0.68% | 0.97% | 1.76% | 3.41% |
| Dros 7% a hyd at, ac yn cynnwys, 10% | 0.39% | 1.17% | 2.35% | 3.91% |
| Dros 10%, a hyd at, ac yn cynnwys, 15% | 0.77% | 2.03% | 2.03% | 4.83% |
| Dros 15% a hyd at, ac yn cynnwys, 20% | 0.70% | 1.71% | 2.07% | 4.49% |
| Dros 20% | 1.27% | 4.44% | 6.75% | 12.46% |
| | | | | |
| Pob ysgol | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 13b: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018, yn ôl cyfrwng iaith ysgol yn 2016-2017**

| | **Canran y disgyblion** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Cyfrwng Cymraeg yn bennaf (38 ysgol) | 0.42% | 0.94% | 1.11% | 2.47% |
| Dwyieithog (24 ysgol) | 1.63% | 1.30% | 3.95% | 6.88% |
| Cyfrwng Saesneg yn bennaf (147 ysgol) | 0.58% | 1.71% | 2.16% | 4.45% |
| Pob ysgol | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 14b: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018, yn ôl awdurdod lleol**

| | | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod lleol** | **Carfan Blwyddyn 10 (blwyddyn flaenorol)** | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Ynys Môn | 661 | 2.57% | 3.03% | 1.82% | 7.41% |
| Gwynedd | 1,161 | 1.21% | 1.46% | 3.36% | 6.03% |
| Conwy | 1,059 | * | 4.34% | 2.55% | * |
| Sir Ddinbych | 1,094 | * | 7.40% | 2.56% | * |
| Sir y Fflint | 1,618 | 2.22% | 0.37% | 3.71% | 6.30% |
| Wrecsam | 1,126 | 2.75% | 1.24% | 3.29% | 7.28% |
| Powys | 1,226 | * | * | 2.37% | 2.94% |
| Ceredigion | 644 | * | 0.93% | 2.48% | * |
| Sir Benfro | 1,100 | * | 1.91% | 2.36% | * |
| Sir Gaerfyrddin | 1,924 | 1.72% | 0.36% | 4.73% | 6.81% |
| Abertawe | 2,315 | * | 0.60% | 0.99% | * |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,460 | * | * | 1.92% | 2.26% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,445 | * | 2.42% | 2.56% | * |
| Bro Morgannwg | 1,386 | 0.51% | 1.30% | 1.80% | 3.61% |
| Rhondda Cynon Taf | 2,433 | * | 0.62% | 1.03% | * |
| Merthyr Tudful | 565 | 0.88% | 6.19% | 1.77% | 8.85% |
| Caerffili | 1,906 | 0.42% | 2.31% | 1.36% | 4.09% |
| Blaenau Gwent | 571 | 0.00% | 0.00% | 1.58% | 1.58% |
| Torfaen | 1,076 | * | 0.56% | 2.14% | * |
| Sir Fynwy | 757 | 0.00% | 2.25% | 0.79% | 3.04% |
| Casnewydd | 1,644 | * | 0.85% | 2.49% | * |
| Caerdydd | 3,236 | 0.68% | 1.64% | 1.67% | 3.99% |
| Cymru | 30,407 | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |

*Mae eitemau data yn seiliedig ar garfanau sy'n fwy na sero ond yn llai na phump wedi cael eu hatal. Hefyd, ni ellir datgelu ffigurau pellach er mwyn sicrhau na ellir codi ffigurau wedi'u hatal trwy dynnu o gyfansymiau.


Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 18b: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 mewn ysgolion ffydd, 2017-2018**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10 neu 11** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif ddarpariaeth** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Pob ysgol (209 ysgol) | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |
| Ysgolion ffydd (18 ysgol) | 0.66% | 1.29% | 1.84% | 3.79% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

**Ffigur 19b: Canran y disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018, yn ôl categoreiddio ysgolion yn 2017**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Cyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol a'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion

**Ffigur 20b: Cyrchfannau disgyblion na wnaethant symud ymlaen o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 11 yn 2017-2018 mewn ysgolion sydd â mwy na 10% o'u disgyblion yn caffael Saesneg fel iaith ychwanegol sydd wedi eu categoreiddio fel 'A', 'B' neu 'C'[3] yn 2016-2017**

| | Canran y disgyblion | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Wnaeth ail-wneud Blwyddyn 10 neu a osodwyd mewn grŵp blwyddyn arall heblaw 10** | **A symudodd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel prif** | **Na ellid eu cysylltu â chyrchfan** | **Na symudodd ymlaen i Flwyddyn 11 (Yr holl gyrchfannau)** |
| Pob ysgol (209 ysgol) | 0.67% | 1.56% | 2.21% | 4.45% |
| Ysgolion sydd â >10% SIY A-C (12 ysgol) | 1.04% | 1.68% | 3.80% | 6.52% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a Chyfrifiad Disgyblion ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol

[3] Caiff y categorïau hyn eu hesbonio ar wefan geirfa Fy Ysgol Leol (Llywodraeth Cymru, 2013).

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Bandio Ysgolion** | System a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru lle gosodwyd ysgolion mewn un o bum band yn unol â'u presenoldeb a data perfformiad cyfnod allweddol 4. |
| **Categoreiddio** | System a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru lle caiff ysgolion eu gosod mewn un o bedwar categori yn ôl eu gallu canfyddedig i hunanwella |
| **Cofrestriad deuol** | Dyma ble caiff addysg disgybl ei rhannu gan fwy nag un darparwr. |
| **Cofrestriad deuol atodol** | Pan fydd gan ddisgybl gofrestriad deuol, dyma'r darparwr addysg arall. Ni fydd unrhyw ddeilliannau cyfnod allweddol 4 ar ddiwedd Blwyddyn 11 ar gyfer disgybl sydd â chofrestriad deuol atodol yn cyfrif tuag at ddata perfformiad y darparwr hwn. |
| **Cofrestriad unigol** | Dyma ble caiff disgybl ei addysgu gan un darparwr. |
| **Cronfa Ddata Arholiadau Cymru** | Cronfa ddata deilliannau addysgol ar gyfer darparwyr yng Nghymru |
| **CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion** | Ym mis Ionawr, mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru lenwi cyfrifiad blynyddol i ddarparu data i Lywodraeth Cymru ar yr holl ddisgyblion sydd wedi eu cofrestru gyda'r ysgol. Mae'r data hwn yn llywio cyllid a deilliannau'r holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd â chofrestriad unigol neu brif gofrestriad deuol yn nata presenoldeb a pherfformiad yr ysgol. |
| **Darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol** | Dyma ble mae disgyblion yn derbyn eu haddysg mewn darparwr amgen. Gallai'r disgybl fod wedi ei gofrestru â'r ysgol o hyd, neu gallai fod wedi ei gofrestru â'r sefydliad sy'n cynnig darpariaeth amgen. At ddiben yr arolwg thematig hwn, byddwn ddim ond yn edrych ar y disgyblion hynny nad ydynt wedi eu cofrestru yn yr ysgol yn bennaf. |
| **Ddim yn symud ymlaen i Flwyddyn 11** | Dyma ble nodir bod disgybl ym Mlwyddyn 10 yn yr ysgol yn CYBLD y flwyddyn flaenorol ond nid yw wedi symud ymlaen, yn unol â'r disgwyl, i Flwyddyn 11 yn CYBLD y flwyddyn bresennol mewn unrhyw ysgol brif ffrwd yng Nghymru. |
| **Ffurflenni RE2** | Ffurflenni data a ddarperir i ysgolion ar ddiwedd 2000 sy'n dangos eu perfformiad cyfnod allweddol 4 wedi'i ddilysu. Y rhagflaenydd i'r Crynodeb o ddata Perfformiad Ysgolion Uwchradd. |

| | |
|---|---|
| **Gwaharddiad parhaol** | Caiff disgybl ei wahardd yn barhaol am droseddau difrifol iawn neu am dorri rheolau polisi ymddygiad ysgol pan roddwyd cynnig ar ystod eang o strategaethau, a'u bod wedi methu. Ni fydd disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl i'r ysgol oni bai bod panel apeliadau'r corff llywodraethol neu banel apelio annibynnol yn gwrthdroi'r penderfyniad. Bydd rhaid i'r disgybl barhau â'i addysg yn rhywle arall. |
| **Gwerth Ychwanegol** | Ffigur sy'n dangos p'un a yw cynnydd disgybl rhwng cyfnodau allweddol uwchlaw neu islaw'r disgwyliad. Mae'r 'disgwyliad' wedi'i seilio ar gynnydd disgyblion o allu a chefndir tebyg. Gellir casglu ffigurau gwerth ychwanegol ar gyfer disgyblion i gael ffigur ar gyfer darparwr addysgol, sy'n dangos p'un a wnaeth disgyblion y darparwr gynnydd gwell na'r disgwyl (neu waeth na'r disgwyl) rhwng cyfnodau allweddol. |
| **Haen Ganol** | Y sefydliadau hynny sy'n gweithio mewn addysg rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion a darparwyr addysg uniongyrchol eraill. Byddai'r haen ganol yn cynnwys consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, byrddau arholi ac Estyn ymhlith rhai eraill. |
| **Prif gofrestriad deuol** | Pan fydd gan ddisgybl gofrestriad deuol, dyma fydd y prif ddarparwr addysg. Bydd unrhyw ddeilliannau cyfnod allweddol 4 ar ddiwedd Blwyddyn 11 ar gyfer disgybl sydd â phrif gofrestriad deuol yn cyfrif tuag at ddata perfformiad y darparwr hwn. |
| **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** | Set ddata a ddarperir bob blwyddyn i ysgolion, yn dangos eu perfformiad o gymharu ag ysgolion sydd â chyd-destun tebyg |
| **Tynnu oddi ar y gofrestr** | Dyma ble mae ysgol yn tynnu disgybl oddi ar ei chofrestr heb waharddiad ffurfiol, parhaol. |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Cymwysterau Cymru (2019a) *Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau Haf 2019 yng Nghymru: TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a Thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 ar gyfer Cymru: Tablau Data.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/provisional-data-on-entries-for-summer-may-2019/ [Darllenwyd 18 Medi 2019]

Cymwysterau Cymru (2019b) *Adolygiad o gyfres arholiadau haf 2018*. Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/review-of-the-summer-2018-exam-series/ [Darllenwyd 23 Chwefror 2019]

Estyn (2015) *Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Addysg_Heblaw_yn_yr_Ysgol_arolwg_arfer_dda_-_Mehefin_2015.pdf [Darllenwyd 15 Mawrth 2019]

Estyn (2016) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/EOTAS%20cy.pdf [Darllenwyd 28 Chwefror 2019]

Estyn (2018) *Symudiadau rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Managed%20moves%20-%20how%20used%20by%20LAs%20and%20schools%20report%20cy.pdf [Darllenwyd 27 Mawrth 2019]

Llywodraeth Cymru (2018a) *Dadansoddiad o Ymarferion Cofrestru Disgyblion awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/dadansoddiad-o-ymarferion-cofrestru-disgyblion-awdurdod-lleol-ar-gyfer-dysgwyr-syn-defnyddio-darpariaeth-pru-ac-eotas.pdf [Darllenwyd 8 Mawrth 2019]

Llywodraeth Cymru (2018b) *Nodiadau cwblhau technegol ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion: Casglu data presenoldeb - Mai 2018.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/nodiadau-cwblhau-ar-gyfer-allau-ac-disgyblion-cynradd-casgliad-presenoldeb-2018.pdf [Darllenwyd 3 Ebrill 2019]

Llywodraeth Cymru (2019a) *System genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion: categorïau cefnogaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/system-genedlaethol-ar-gyfer-categoreiddio-ysgolion-categoriau-cefnogaeth?_ga=2.249975616.739412423.1571043161-1696243265.1547551928 [Darllenwyd 18 Medi 2019]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Datganiad Ystadegol Cyntaf 2018/19 – Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2018-i-awst-2019-190.pdf [Darllenwyd 18 Medi 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/diffinio-ysgolion-yn-ôl-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf [Defnyddiwyd 22 Mawrth 2019]